Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Cyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol (Buddion mewn Nwyddau neu Wasanaethau etc.) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r DU) 2019** |
| **DYDDIAD** | **14 Chwefror 2019** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Cyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol (Buddion mewn Nwyddau neu Wasanaethau etc.) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r DU) 2019**

**Trosolwg o Bolisi'r OS**
Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer 'diffodd' yn y DU y trefniadau gofal iechyd cyfatebol presennol sydd ag iddynt sail yng nghyfraith yr UE. Bydd hyn yn sicrhau, ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, na fydd y DU yn ymrwymo yn unochrol i barhau i fodloni ei rhwymedigaethau presennol. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu fel y gall y trefniadau cyfatebol presennol barhau hyd at fis Rhagfyr 2020 pan fydd y DU wedi cytuno ar drefniadau cyfatebol gyda gwledydd eraill.

Nid oes unrhyw wahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r OS hwn.

**Cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio**
- Rheoliad (EC) 1408/71 ar gymhwyso cynlluniau nawdd cymdeithasol i bersonau a gyflogir a'u teuluoedd sy'n symud o fewn y Gymuned.
- Rheoliad (EC) 574/72 sy'n pennu'r weithdrefn ar gyfer gweithredu Rheoliad 1408/71
- Rheoliad (EC) 883/2004 ar gyd-drefnu systemau nawdd cymdeithasol.
- Rheoliad (EC) 987/2009 sy'n nodi'r weithdrefn ar gyfer gweithredu Rheoliad 883/2004
- Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006
- Gorchymyn Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) (Sefydlu a Chyfansoddiad) 2005
- Rheoliadau Deddf Meinweoedd Dynol 2004 (Cymeradwyaeth Foesegol, Eithriadau rhag Trwyddedu a Chyflenwi Gwybodaeth am Drawsblaniadau) 2006

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Bydd yr OS yn diwygio adran 131 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Bydd y diwygiad canlyniadol hwn yn dileu pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynglŷn â thalu gan Weinidogion Cymru gostau teithio a ysgwyddir at ddibenion cael gwasanaethau a awdurdodwyd i'w darparu i Wladwriaeth arall yr Ardal Economaidd Ewropeaidd o dan Erthygl 20 neu 27 o Reoliad 883/2004. Bydd y pŵer gwneud rheoliadau hwn yn cael ei arbed mewn perthynas â thriniaeth dramor y gellir parhau i'w awdurdodi ar ôl ymadael â'r UE o dan y darpariaethau arbedion ar gyfer y gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir.

Nid yw'r OS yn trosglwyddo unrhyw un o swyddogaethau'r UE i gorff y DU. Yr unig swyddogaeth newydd a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yw cynnal a chyhoeddi rhestr o'r $3^{ydd}$ gwledydd y mae'r DU yn gwneud cytundeb dwyochrog tymor byr â hwy ar gyfer darparu gofal iechyd cyfatebol (a'r dyddiadau y daw'r cytundeb hwnnw i rym ac y bydd yn dirwyn i ben).

**Diben y diwygiadau**

Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion sy'n codi wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn y ddeddfwriaeth a ddargedwir sy'n ymwneud â threfniadau gofal iechyd cyfatebol. Bydd y Rheoliadau yn gwneud cywiriadau ar gyfer dwyochredd; yn diffodd y darpariaethau yn y tymor hir a rhoi trefniadau pontio yn eu lle hyd at fis Rhagfyr 2020 i breswylwyr gwledydd sydd wedi ymrwymo i gytundeb cyfatebol priodol gyda Llywodraeth y DU.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau i'w gweld yma: https://beta.parliament.uk/work-packages/PMg3ENDc

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau. Er bod gofal iechyd yn faes sydd wedi'i ddatganoli, cyfyngedig yw'r posibilrwydd i Gymru roi polisi gwahanol ar waith oherwydd mae'n ofynnol bodloni rhwymedigaethau rhyngwladol yr ymrwymwyd iddynt gan y DU. Byddai'r rhain yn cynnwys trefniadau gofal iechyd rhyngwladol. Felly, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith, a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar draws y DU yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu eglurder a hygyrchedd i gleifion a darparwyr. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

Mae Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hefyd wedi'i osod yn y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â'r diwygiadau i adran 131 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006